



Rhif yr Hysbysiad Preifatrwydd:	60
Dyddiad y Crëwyd:	25/5/2018
Dyddiad y Cyhoeddwyd:	03/10/2018
Rhif y Fersiwn:	V1
Rhif Adnabod y Ddogfen:	60

Man Gwasanaeth:	Adran Isadeiledd
Man Gweithio:	Strategaeth Drafnidiaeth a Diogelwch ar y Ffyrdd
Manylion Cyswllt:	01443 866595
Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Safonau Cenedlaethol Hyfforddiant Beicio
Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:	Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n defnyddio'r wybodaeth bersonol a geir drwy'r ffurflen ganiatâd Safonau Cenedlaethol Hyfforddiant Beicio i ddarparu hyfforddiant beicio i blant y mae eu rhiant/gwarcheidwad wedi rhoi caniatâd iddynt fod yn rhan o'r prosiect.

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

Y ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn darparu llythyr pro forma/ffurflen ganiatâd ar gyfer yr ysgolion hynny a ddewiswyd i fod yn rhan o'r fenter i'w hanfon at rieni i'w gwahodd i ganiatáu i'w plentyn gymryd rhan yn y prosiect Hyfforddiant Beicio Cenedlaethol. Bydd ffurflenni wedi'u cwblhau yn cynnwys enw'r cyfranogwr a llofnod eu rhiant/gwarcheidwad a byddant yn cael eu rhannu gyda'r darparwr hyfforddiant i'w galluogi i ddarparu'r hyfforddiant.

Pan fydd yr hyfforddiant wedi'i gwblhau, mae'r darparwr hyfforddiant yn cyflwyno adroddiad gwerthuso i'r Cyngor sy'n cynnwys enw'r cyfranogwr, os maent wedi mynychu'r hyfforddiant a'r canlyniad, hynny yw, pasio, methu, rheswm dros fethu.

Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

Diben y gwaith prosesu

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch ar y ffurflen ganiatâd Hyfforddiant Beicio Cenedlaethol i ddarparu hyfforddiant beicio a gynlluniwyd i roi i blant y sgiliau y mae eu hangen arnynt i negodi taith beiciau diogel. Mae prosiect Llywodraeth Cymru hwn wedi'i gydyntu gan y Gwasanaeth Diogelwch ar y Ffyrdd ac fe'i cyflwynir gan hyfforddwr beicio allanol a gymeradwywyd ac mae angen enw pob plentyn sy'n cymryd rhan i alluogi rhoi'r prosiect ar waith. Defnyddir y manylion hyn i weinyddu'r prosiect a chynhyrchu cofnodion hyfforddi/gwerthuso. Mae'n ofynnol i rieni/gwarcheidwaid roi eu caniatâd i alluogi eu plentyn i gymryd rhan yn yr hyfforddiant drwy arwyddo'r ffurflen ac, o ganlyniad, mae eu llofnod yn cael ei gynnal.

Sail gyfreithiol ar gyfer y gwaith prosesu

Er mwyn i brosesu data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol 2016, mae'n rhaid nodi amod dilys o Erthygl 6 o'r Rheoliadau, a amlinellir isod:

Erthygl 6(1)(f) - mae angen prosesu at ddibenion y buddiannau dilys a ddilynir gan y rheolwr neu gan drydydd parti, ac eithrio pan fo buddiannau o'r fath yn cael eu diystyru gan fuddiannau neu hawliau a rhyddid sylfaenol y testun data sy'n gofyn am ddiogelu data personol, yn enwedig pan fo'r testun data yn blentyn.

Mae Deddf Traffig Ffyrdd 1988, Adran 39, yn gosod "dyletswydd statudol" ar yr awdurdod lleol i ymgymryd ag astudiaethau mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, ac i gymryd camau i'w lleihau a'u hatal.

Yr hawl i dynnu caniatâd yn ôl

Mae gennych yr hawl i dynnu'ch caniatâd yn ôl i'ch plentyn fod yn rhan o'r prosiect hwn ac os hoffech wneud hyn, cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth y mae ei fanylion ar frig y ddogfen hon. Fodd bynnag, byddwn yn dal i brosesu'ch gwybodaeth at ddibenion tystiolaethu bod eich plentyn wedi cael lleoliad ond eich bod wedi tynnu eich plentyn yn ôl o'r prosiect.

Pwy fydd yn gallu cyrchu eich gwybodaeth?

Manylion y Rheolwr Data a Swyddog Diogelu Data

Y Rheolwr Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Y Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Gorfforaethol/Swyddog Diogelu Data
E-bost: diogeludata@caerffili.gov.uk
Ffôn: 01443 864322

Efallai y bydd Rheolwyr Data eraill hefyd yn gyfrifol am eich gwybodaeth, yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth am ragor o wybodaeth.

Manylion prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth

Darparwr hyfforddiant:

Gethin MTB
The Engine House,
Stryd Fawr,
Dowlais,
Merthyr Tudful,
CF48 3HA

Cydlynnydd y prosiect:

Prif Beiriannydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
E-bost: thomag8@caerffili.gov.uk

Ffôn: 01443 866595

Manylion am unrhyw rannu o'ch gwybodaeth o fewn cyngor bwrdeistref sirol Caerffili

Crëir y cofnodion hyfforddi gan y darparwr hyfforddiant a'u pasio i'r Tîm Strategaeth Trafnidiaeth a Diogelwch ar y Ffyrdd ac mae eu hangen at ddibenion archwilio.

Manylion am unrhyw broseswyr data allanol:

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda Gethin MTB a fydd yn darparu'r hyfforddiant beicio tan fis Rhagfyr 2019 pan fydd y contract yn cael ei adolygu.

Ceisiadau am wybodaeth

Mae'n bosibl y bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn destun ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Diogelu Data 1998.

Os bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn destun cais o'r fath, bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ymgynghori â chi ynghylch ei rhyddhau, lle bo hynny'n bosibl. Os byddwch yn gwrthwynebu rhyddhau eich gwybodaeth, byddwn yn cadw'r wybodaeth yn ei hôl, os bydd y ddeddfwriaeth berthnasol yn caniatáu i hynny ddigwydd.

Am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Manylion y cyfnod cadw

Mae'r cyfnod y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cadw gwybodaeth yn cael ei bennu drwy ofynion statudol neu arferion gorau.

Cedwir ffurflen ganiatâd Safonau Cenedlaethol Hyfforddiant Beicio am gyfnod o 3 blynedd, ac ar ôl hynny, caiff ei dinistrio.

Bydd data personol y rhai sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn cael eu cadw'n electronig a'u cadw at ddibenion gwerthuso/archwilio am gyfnod nad yw'n hwy na 5 mlynedd.

Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwynion)

Eich hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data

Mae'r ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i'r testunau data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Yr hawl i gael mynediad at ddata personol.
- Yr hawl i atal prosesu sy'n debygol o achosi niwed neu ofid.
- Yr hawl i atal prosesu at ddibenion marchnata.
- Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau awtomataidd.
- Yr hawl i iawndal os mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn methu â chydymffurfio â gofynion penodol y Ddeddf Diogelu Data mewn perthynas â'ch gwybodaeth.
- Yr hawl i unioni, blocio, dileu neu ddinistrio'ch gwybodaeth mewn rhai amgylchiadau.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael ar y wefan hon: www.ico.org.uk.

Y Weithdrefn Gwynion

Os ydych yn gwrthwynebu'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn trin eich data, mae gennych hawl i gwyno. Cysylltwch â'r Maes Gwasanaeth, y manylir arno ar frig y ddogfen hon, gan amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau'n anfodlon, mae gennych hefyd yr hawl i gwyno wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dilynwch y ddolen hon am ragor o wybodaeth am y broses gwyno.

<https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb>

Crynodeb o'r Hysbysiad Preifatrwydd

Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch ar Ffurflen Ganiatâd Safonau Cenedlaethol Hyfforddiant Beicio i weinyddu'r prosiect a darparu hyfforddiant beicio i'r plant hynny y mae eu rhieni/gwarcheidwaid wedi eu dewis i fod yn rhan o'r cynllun. Mae'n ofynnol i rhieni/gwarcheidwaid roi caniatâd i alluogi eu plentyn i gymryd rhan yn yr hyfforddiant.

Cedwir ffurflen ganiatâd Safonau Cenedlaethol Hyfforddiant Beicio am gyfnod o 3 blynedd, ac ar ôl hynny, caiff ei dinistrio.

Bydd data personol y rhai sy'n cymryd rhan yn y prosiect yn cael eu cadw'n electronig a'u cadw at ddibenion gwerthuso/archwilio am gyfnod nad yw'n hwy na 5 mlynedd.

Mae gennych nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydym yn prosesu'ch gwybodaeth, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

[{Hyperddolen i'r Hysbysiad Preifatrwydd Llawn ar ein gwefan}](#)